CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
1 Awst 2018, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, A W Mummery, E Williams, R Davies, D Gwyn, S Jones, M Jones (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Owain Evans, R Williams (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod a chofnodwyd y trafodaethau gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – R. Davies (Eitem o dan Materion Eraill yn ymwneud â'r Wylfa Newydd)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16.06.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir - Cyng N Jones yn cynnig a Cyng R Davies yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Difrod i'r ffens rhwng 5 a 11 Bryn Ffynnon** Darllenwyd e-bost yn nodi fod pris atgyweirio wedi ei gytuno a bod trafodaethau wedi bod rhwng y Cyngor Sir a'r cwmni wnaeth y difrod parthed talu am drwsio dau banel yn y ffens. Mae'n ymddangos y bydd hyn wedi ei wneud yn fuan gan ddatrys y broblem.
4.2	**Yswiriant a Treth y Ganolfan** 1. Nodwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt â'r Cyngor Sir unwaith yn rhagor. Mae copi o'r Les derfynol wedi ei derbyn gan y Clerc a chydnabyddiaeth am y costau rhent a chyfreithiol. Nodwyd bod y Cadeirydd mewn cyswllt â'r Adran Drethu i egluro fod y Ganolfan yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Rheoli annibynnol ac na ddylid codi treth arnom ni. Nodwyd hefyd fod yr aelod o staff sy'n delio â hyn ar ei wyliau ac nad oedd modd cael cadarnhad erbyn cyfarfod heno. 2. Mae angen i'r Cyngor gofrestru'r Ganolfan gyda'r Gofrestrfa Tir a bydd y Clerc yn gwneud hynny ar ein rhan. 3. Bu'r Clerc yn trafod yswiriant y Ganolfan gyda'r Cyngor Sir. Cafwyd addewid llafar gan Gareth Jones mewn trafodaethau blaenorol y gellid yswirio'r Ganolfan dan yswiriant y Cyngor Sir, ond ymddengys bellach nad yw hynny'n bosibl. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Zurich, yswirwyr y Cyngor Bro, i ofyn am ddyfynbris. Datganodd y Cynghorwyr y byddai'n briodol cael ail bris hefyd, ac awgrymwyd Cwmni Tarian, Caernarfon. 4. Adroddwyd fod Pwyllgor y Ganolfan yn gweithredu'n effeithiol a bod yna ddatblygiadau da dros y misoedd diwethaf. Mae yna swm o arian anrhydeddus wedi ei gasglu a chyhoeddwyd fod grant o dros £5000 wedi ei dderbyn ar gyfer adnewyddu'r gegin a phrynu adnoddau.
4.3	**Anglesey Computer Solutions** Darllenwyd e-bost gan ACS yn amlinellu pam fod angen gwaith ar y wefan iddi gydymffurfio â deddfwriaeth GDPR yn llawn. Cytunwyd fod y dasg yn fwy nag y tybiai'r Cyngor yn ein trafodaethau y mis diwethaf a chytunwyd i awdurdodi'r Clerc i roddi caniatâd i ACS symud ymlaen i wneud y gwaith. Mae yna nifer o bethau eraill y mae angen i'r Cyngor ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a bydd y Clerc yn gwneud hynny cyn hir.
	Llofnod **Cadeirydd** **05.09.18**

5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Môn**
	Dim
6	**MATERION ARIANNOL**
6.1	Trafodwyd y datganiad gan yr Archwiliwr Mewnol ac ymateb y Clerc i rai sylwadau a wnaed ganddo. Yr oedd pawb yn unfryd gytûn **ein bod yn derbyn y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2017-18 fel rhai cywir.**
6.2	**Costau Cadeirydd** Cytunwyd i dalu costau'r Cadeirydd am offer i osod arwydd ar y Ganolfan a phryniant paent.
6.3	**Y Ganolfan** Roedd Pwyllgor y Ganolfan wedi derbyn dau siec gan Dŵr Cymru, un am £20 a'r llall am £70, yn daladwy i'r Cyngor Cymuned. Mae'r Clerc wedi talu'r arian i mewn i gyfrif y Cyngor a bydd angen gwneud siec i'r Ganolfan am £90. Cytunwyd iddo wneud hyn.
6.4	**ROSPA** Cytunwyd i dalu £79.80 am yr archwiliad blynyddol o'r cae chwarae yn Star. Cafwyd adroddiad yn nodi fod pob dim yn iawn yno ac yn ddiogel.
6.5	**COFRESTRFA TIR** Cytunwyd i dalu ffi o £40 i gofrestru'r Ganolfan.
7	**MATERION ERAILL**
7.1	**DCO WYLFA NEWYDD** Nododd y Cadeirydd mai'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar gyfer gwneud sylwadau ar y datblygiad hwn yw 13 Awst, ac awgrymodd ein bod yn gwneud hynny am y rhesymau canlynol: • Mae Cyngor Penmynydd mewn ardal ble y mae effaith oherwydd y datblygiad hwn gan fod peilonau ychwanegol, sy'n cael eu hargymell fel rhan o'r llwybr trosglwyddo, o fewn ffiniau'r plwyf. • Bydd effaith sylweddol ar drafnidiaeth drwy'r plwyf. • Effaith ar yr iaith Gymraeg. Cytunodd y Cyngor i gofrestru. (Nid oedd y Cyng R Davies wedi cymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad hwn.)
7.2	**SAFLE SIPSIWN ARFAETHEDIG YN STAR** Cafwyd trafodaeth ar y cais hwn. Bydd ymweliad safle gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn hir. Bydd y cais ei hunan yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ddechrau Medi. Penderfynwyd, gan fod nifer wedi cofrestru i siarad yn ystod gwrandawiad y cais, nad oes angen i'r Cyngor Cymuned wneud hynny.
7.3	**CAIS CYNLLUNIO AR GYFER MAES PARCIO GER FOUR CROSSES** Er gwybodaeth, rhannwyd gwybodaeth a dderbyniwyd am fwriad y Cyngor Sir i wneud cais am faes parcio ger Four Crossess rhag ofn y cyfyd problem wrth i weithwyr adeiladu'r Wylfa Newydd barcio ar ochor ffyrdd ac o fewn stadau tai,
8	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf** 1. Ymddygiad gwrth cymdeithasol yn Stad Bryn Ffynnon. 2. Trafod datblygu'r maes chwarae.
	Llofnod Cadeirydd 05.09.18